

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

25 Medi 2018 am 2 y prynhawn

Ystafell Gynadledda'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir,  
Caerfyrddin / Democratic Services' Unit Committee Room, County Hall, Carmarthen

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
<b>Swyddogion</b>		
Jonathan Morgan	JM	Pennaeth Tai a Chymunedau Diogel
Gareth Jones	GJ	Rheolwr Trawsnewid Busnes Digidol
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Bethan James	BJ	Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b>  Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths.  Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Tina Higgins, Cynghorydd Joseff Davies, Wendy Walters, Gwyneth Ayers a Myfanwy Jones.	
2.	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf 19.7.18</b>  Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.  Cadarnhawyd, yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd Gweithredol ar 24 Medi bod y Cynghorydd Rob James yn cymryd lle y Cynghorydd John Prosser ar y Panel.  Nodwyd diolch i'r Cynghorydd Prosser am ei gefnogaeth a'r Panel.  Nodwyd bod Canolfan Yr Egin wedi agor erbyn hyn a bod noson gwylwyr yn cael ei chynnal yno ar 26 Medi.	

	<p>Nodwyd y byddai'n bositif petai'r Cyngor yn rhoi sylw pellach i'r Ganolfan hon, gan ddenu sylw ymhlith yr Aelodau Etholedig o'r datblygiad, sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.</p> <p>Nodwyd bod trafodaethau wedi bod ar waith gyda Marc Griffiths o ran Cerddoriaeth Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a sefydlu ffrwd arbenigol ar gyfer y Cyngor. Bydd yr isadran TG yn cyfarfod a Marc yn yr wythnosau nesaf er mwyn deall y systemau sydd ar waith yn y safleoedd ac er mwyn datrys rhai problemau, cyn lansio'r ffrwd yn ffurfiol.</p>	
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Adrodd ar gynnydd yr is-adran Dai – Jonathan Morgan</b></p> <p>Croesawyd Jonathan Morgan i'r cyfarfod i roi diweddariad cynnydd o'r is-adran Dai a'r camau gweithredu o ran Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Bu JM hefyd yn cyflwyno diweddariad i Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg ar 18 Medi.</p> <p>Cafwyd diweddariad o ran y dull gosod newydd sydd wedi ei seilio ar ddewis ar gyfer dyrannu cartrefi. Bydd y gwaith hwn yn rhoi darlun llawer mwy cywir, cyfredol a chynhwysfawr o'r anghenion lleol.</p> <p>Esboniodd JM y gwaith o ran cynnal arolwg anghenion gwledig ym mhentrefi Trelech a Chynwyl Gaeo. Mae'r is-adran yn cynnal dadansoddiad o'r arolwg ar hyn o bryd ac mae gwaith ar droed ym mhentref Meidrim er mwyn diwallu angen yn lleol drwy dreialu bod pobl leol yn medru prynu oddi ar 'gynllun'. Mae'r isadran yn parhau i edrych ar opsiynau ar gyfer Cynwyl Gaeo.</p> <p>Mae'r Cynllun Cartrefi Fforddiadwy bellach yn ei drydydd blwyddyn o weithredu ac mae 500 o gartrefi ychwanegol eisoes wedi'u cyflwyno yn ôl i'r sir.</p> <p>Cadarnhawyd bod cwmni tai 'Cartrefi Croeso' wedi ei sefydlu a bod y cwmni newydd yn cynnig cyfleoedd o'r newydd o ran cyllido a hefyd o ran cynnig darpariaeth tai mwy eang, yn ddibynnol ar yr angen mewn ardal leol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn targedu buddsoddiad o £30 miliwn tuag at eiddo gwag yn y sector preifat ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae Sir Gâr yn gweinyddu dyraniad o £1.9 miliwn sydd eisoes wedi dod a 61 o unedau llety yn ôl i ddefnydd. Yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm Strategol Sirol, bydd yr isadran Dai yn edrych ar ddeiliaid sydd wedi cymryd yr unedau gwag yma er mwyn gweld pa effaith a geir yn lleol.</p> <p>Esboniodd JM bod cyfleoedd niferus o ran hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd ymhlith ein tenantiaid, boed dryw'r cylchlythyr Tenant i Denant neu drwy ymweliadau ein Swyddogion Tai a bydd cyfle i ddatblygu camau gweithredu pellach er mwyn cefnogi gwaith y Strategaeth Hybu.</p> <p>Cafwyd ymholiad gan CJ o ran annog pobl ifanc i gofrestru diddordeb a cytunwyd bod angen cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd er mwyn annog pobl leol fel bod diwallu anghenion lleol.</p> <p>Dyfynnodd AL o Nodyn Technegol 2 sy'n cynnig canllawiau ymarferol ar rôl y system gynllunio wrth ddarparu tai fforddiadwy. Nodir isod y meysydd allweddol lle y dylai'r awdurdodau cynllunio lleol, yr awdurdodau tai, y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r datblygwyr preifat gydweithio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cadarnhau beth yw'r angen am dai yn y farchnad dai leol/y marchnadoedd tai lleol;</li> <li>• pennu targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio (ledled ardal yr awdurdod ac ar safleoedd penodol);</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• monitro unrhyw newidiadau yn yr angen am dai;</li> <li>• diweddarau polisiâu cynllunio a thai a'r targedau ar gyfer tai fforddiadwy;</li> <li>• clustnodi safleoedd posibl ar gyfer tai fforddiadwy (gan gynnwys safleoedd ar hap a safleoedd eithriedig gwledig);</li> <li>• defnyddio amodau cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau tai fforddiadwy;</li> <li>• sicrhau bod amrywiaeth briodol o ran y mathau o dai ac o ddeiliadaethau a fydd yn cyfrannu at ddiwallu'r angen a nodwyd am dai fforddiadwy ac at wireddu'r amcan o greu cymunedau cymysg a chynaliadwy;</li> <li>• adeiladu a rheoli tai fforddiadwy;</li> <li>• rheoli pwy sy'n cael meddiannu'r tai fforddiadwy, a hynny er mwyn sicrhau mai pobl sydd mewn categorïau penodo o angen sy'n meddiannu'r tai hynny.</li> </ul> <p>Esboniwyd hefyd y bydd yr isadran yn cylchredeg gwybodaeth bellach o ran Gosod Syml a'r cyfleoedd i landlordiaid i drosglwyddo cyfrifoldebau o ran rhentu i'r cwmni.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran diffiniad 'Tai Fforddiadwy' a'i fod yn amrywio o ardal i ardal yn y sir. Cynigiwyd y syniad o 'Gartref Cam Cyntaf' yn hytrach na tai fforddiadwy fel modd o hyrwyddo'r cyfleoedd.</p> <p>Diolchwyd i JM a'i isadran am y gwaith o ran y Strategaeth Dai ac o ran hyrwyddo dwyieithrwydd y sir.</p>	
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Technoleg Gwybodaeth – Gareth Jones</b></p> <p>Croesawyd Gareth Jones i'r cyfarfod o wasanaethau TG y Cyngor. Mae'r isadran yn awyddus i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran newid cyfeiriadau e-bost i @sirgar.llyw.cymru</p> <p>Cytunwyd i baratoi papur ar gyfer trafodaeth yn y Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu ar hyn yn ffurfiol, i'w gyflwyno gan y Cynghorydd Peter a'r Cynghorydd Mair Stephens.</p> <p>Cytunwyd hefyd i drafod y syniad o newid y cyfeiriad at Gyngorwyr ar y llyfr cyfeiriadau o Cllr i Cyng.</p> <p>Esboniodd GJ bod y blwch o ran sgiliau Iaith bellach wedi ei ddi-ddymu o'r llyfr cyfeiriadau, wrth i'r system e-bost symud i Office 365. Nodwyd y byddai modd cynnwys y logo siarad Cymraeg fel rhan o lun swyddog / Aelod Etholedig ar y system skype a'r system e-bost. Mae angen gwneud rhai ymholiadau pellach o ran defnyddio lluniau staff a derbyn caniatâd i wneud hynny.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran systemau newydd mae'r Cyngor yn caffael ac anawsterau sy'n dod i'r amlwg wrth gomisiynu. Nodwyd bod modd gofyn am gefnogaeth oddi wrth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg o ran rhoi pwysau ar gwmnïoedd i ddarparu'n ddwyieithog.</p> <p>Diolchwyd i Gareth am ei bresenoldeb ar gefnogaeth o ran TG, ar draws y Cyngor.</p>	<p>Polisi / TG</p>
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Hybu a chynyddu defnydd gwasanaethau Cymraeg (Safon 81)</b></p>	

	<p>Esboniodd BJ bod Safonau'r Gymraeg yn gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy Safon 81. Mae'r Safonau bellach wedi'u cyflwyno ar draws y Cyngor felly mae'n amserol cael trafodaeth o ran cyfleoedd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu a ni.</p> <p>Amlinellodd BJ y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r amrywiol adrannau a'r dulliau gwahanol o gysylltu a'r cyngor (e.e. gwefan, galwadau ffon, cyswllt wyneb yn wyneb a ffurflenni).</p> <p>Amlygodd BJ rhai gwasanaethau posib o bob adran, gan gynnwys y gwasanaeth Gweithwyr Cymdeithasol a Seicolegwyr Addysg, Gwasanaethau Ieuencid, Diogelwch Ffyrdd a Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Nodwyd bod nifer o enghreifftiau lle nad yw aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio'r Gymraeg ac mae'n hanfodol ein bod yn deall y rhesymeg a'r rhwystrau sy'n wynebu ein cwsmeriaid.</p> <p>Pwysleisiwyd bod angen monitro cynnydd ac er mwyn gwneud hynny bod angen cael gwaelodlin o ble dy ni arni ar hyn o bryd.</p> <p>Cynigwyd y dylid dechrau'r gwaith gyda phob bregus a phobl hyn, pobl byddai'n fwy cysurus i dderbyn gwasanaethau a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai gan Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau rôl allweddol i chwarae yn hyn.</p> <p>Mae'r meddylfryd yn parhau bod angen i faterion swyddogol cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Nodwyd hefyd nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol bod nifer uchel o staff y Cyngor yn ddwyieithog a gellir gwneud mwy i hyrwyddo hyn.</p> <p>Nodwyd bod disgwyliadau Cymry Cymraeg yn isel gan fod y nifer o wasanaethau ehangach ddim ar gael yn ddwyieithog a cafwyd enghreifftiau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a BT.</p> <p>Cafwyd sylwadau o ran gwefan gorfforaethol y Cyngor a'i bod hi'n anodd i ganfod yr union wybodaeth sydd ei angen.</p> <p>Cytunwyd i edrych ar Wasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaeth Ieuencid gan goladu data ar argaeledd y Gymraeg a'r sgiliau ymhlith y staff. Cyflwynir manylion pellach yn y cyfarfod nesaf.</p>	BJ
6.	<p><b>Diweddariad</b></p> <p>Cylchredwyd manylion o ran yr Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ddydd Gwener 21 Medi. Mae'r canlyniadau yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, ac yn Sir Gâr i 91,200 sef 51.5%. Sampl ar draws Cymru a gynhaliwyd felly mae angen bod yn ofalus wrth gyfeirio at y data.</p>	
7.	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Nododd CJ nad yw'r dewis Cymraeg ar beiriant parcio yn Wilkinsons yn gweithio ac y gallai hyn roi camargraff o ran data defnyddwyr.</p>	
8.	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>19 Rhagfyr 2018, 10 o'r gloch</p>	